Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Glwb Caban Rhoscolyn
# Y Caban
# Rhoscolyn
# Ynys Môn
# LL65 2DX

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru



Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yn Rhoscolyn yn awdurdod lleol Ynys Môn yw Clwb Caban. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ar gyfer plant rhwng dwy a hanner oed a phump oed. Mae'n cynnig sesiynau addysg y blynyddoedd cynnar rhwng 1.00pm a 3.00pm yn ystod y tymor ysgol am bum niwrnod bob wythnos. Adeg yr arolygiad, roedd tri o blant yn derbyn addysg a ariennir. Mae'r lleoliad wedi nodi bod gan ychydig iawn o blant anghenion dysgu ychwanegol. Mae tua hanner y plant yn siarad Saesneg gartref ac mae tua hanner ohonynt yn siarad Cymraeg a Saesneg. Mae dau aelod o staff rhan-amser ac arweinydd amser llawn, a ddechreuodd yn ei swydd yn 2015.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf yn Ionawr 2018 a chan Estyn yn Ebrill 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r plant yn mynd i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn bwrw ymlaen ag arferion yn gyflym
- Mae ethos hapus a chyfeillgar yn y lleoliad
- Mae'r amgylchedd dysgu yn cynnwys adnoddau da ac mae'n drefnus
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac yn rhoi cymorth cadarnhaol i'r plant, yn unol â'u hanghenion unigol
- Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau gofalus sy'n eu galluogi i nodi'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r pwyllgor rheoli yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm cryf a chefnogol
- Mae'r broses hunanarfarnu wedi hen ennill ei phlwyf ac mae'n rhoi darlun clir o'r lleoliad a'r hyn y mae angen iddo'i wneud i wella
- Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi i ymestyn a gwella eu harfer yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A2 Gwella cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau ar draws meysydd dysgu

A3 Cynnwys yr holl randdeiliaid yn briodol mewn arfarnu gwaith y lleoliad, gan gynnwys y pwyllgor rheoli

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | dd/b |
|---|---|

**Safonau: dd/b**

**Lles: dd/b**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn am nad oedd nifer ddigonol o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio ystod o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb plant yn llwyddiannus yn eu dysgu. Maent yn rhoi cwricwlwm y cyfnod sylfaen ar waith yn effeithiol i fodloni anghenion y plant ac yn addasu eu cynllunio yn briodol yn unol â diddordebau a galluoedd plant. Mae cynlluniau ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ar draws pob maes dysgu, dan do a'r tu allan, fel sy'n briodol. O ganlyniad, mae plant yn gwneud cynnydd llwyddiannus yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae amser carped yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth iddynt ymuno â chaneuon a rhigymau cyfarwydd a chyfrif faint o blant sy'n bresennol y diwrnod hwnnw. Mae ymarferwyr yn cynllunio llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar, fel tynnu llun mewn 'glop' ac ewyn eillio neu ddilyn patrymau ysgrifennu syml â sialc ac ysgrifbinnau. Ceir cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau darllen cynnar plant pan fyddant yn dod o hyd i'w henw eu hunain wrth iddynt gyrraedd fel ffurf o hunangofrestru, ac adnabod eu mat bwrdd amser byrbryd. Mae ymarferwyr yn annog plant i wrando ar storïau amser cylch ac eistedd i edrych ar lyfrau yn ystod chwarae rhydd dan do a'r tu allan.

Mae digonedd o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau rhifedd trwy dasgau cynlluniedig dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau dewis rhydd, fel chwarae rôl yn swyddfa'r post, lle maent yn cyfrif darnau arian ac yn adnabod rhifau ar stampiau. Fodd bynnag, nid oes cynllunio penodol ar gyfer datblygu medrau TGCh plant ar waith eto.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg plant yn dda. Bydd ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd naturiol iawn trwy gydol y sesiynau. Maent yn canu caneuon Cymraeg gyda'r plant, yn defnyddio geiriau Cymraeg a Saesneg pan fyddant yn trafod dyddiau'r wythnos a'r tywydd adeg cofrestru, yn gofyn cwestiynau ac yn modelu brawddegau syml. Ceir cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddiwylliant Cymru a byw yng Nghymru. Er enghraifft, mae plant yn dathlu Dydd Santes Dwynwen trwy wneud cardiau a Dydd Gŵyl Dewi trwy wisgo i fyny, gwneud cennin Pedr a blasu bara brith.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o dir helaeth yr ysgol i helpu plant i ddysgu mwy am y byd o'u cwmpas. Maent yn ymweld ag ardal y pwll i chwilio am chwilod ac yn cerdded trwy'r ddôl i fwydo glaswellt i'r ceffylau a gweld defaid yn y caeau cyfagos.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am gwricwlwm y cyfnod sylfaen a defnyddiant broffil asesu'r cyfnod sylfaen yn effeithiol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu syniadau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd diddorol i blant ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'r rhain yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd plant ac yn cefnogi eu dysgu yn gadarnhaol. Er enghraifft, fel rhan o destun diweddar ar ffermydd, fe wnaethant wahodd ffermwr lleol i ddod â'i dractor ac oen i'r lleoliad am brynhawn. Ceir cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a gweithgareddau wedi'u hysgogi gan blant, ac mae ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i ddiddordebau plant. Sefydlwyd ardal chwarae rôl bresennol y swyddfa bost o ganlyniad uniongyrchol i gais gan y plant wrth gynllunio'r testun ar bobl sy'n ein helpu. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn darparu cyfleoedd digon heriol i blant ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd gweithio digynnwrf a hapus. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i gymryd cam yn ôl a galluogi plant i archwilio ac ymchwilio drostynt eu hunain. Mae ymarferwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwneud yn siŵr fod plant yn deall arferion y lleoliad yn dda. O ganlyniad, mae ymddygiad yn dda trwy gydol y sesiynau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant. Defnyddiant y wybodaeth o arsylwadau i nodi camau nesaf plant unigol mewn dysgu a chynllunio'n briodol i gefnogi cynnydd yn y dyfodol. Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni'n dda am gyflawniadau a lles eu plentyn. Maent yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd trwy gysylltiadau dyddiol, ac yn darparu dau gyfle defnyddiol yn ystod y flwyddyn i drafod cynnydd plant yn fwy ffurfiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Ceir polisïau a gweithdrefnau defnyddiol i hyrwyddo'r agwedd hon ar waith y lleoliad, y mae'r lleoliad yn eu cymhwyso'n dda a'u rhannu'n briodol â rhieni. Mae arferion dyddiol yn cynnwys golchi dwylo, bwyta ac yfed yn iach, ac mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol dan do a'r tu allan fel ei gilydd. Mae plant yn dechrau dysgu am gynaliadwyedd wrth iddynt gymryd rhan mewn ailgylchu papur, plastig, cardfwrdd a gwastraff bwyd yn y lleoliad.

Mae ystod fuddiol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn annog plant i rannu offer a chymryd eu tro. O ganlyniad, mae plant yn cyd-chwarae â'i gilydd ac yn datblygu cyfeillgarwch da â'i gilydd. Mae cyfleoedd fel cerdded ar dir yr ysgol a gweld y blodau a'r pryfed amrywiol yn y glaswellt a'r coed yn datblygu synnwyr plant o barchedig ofn a rhyfeddod yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sefydledig ar gyfer adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos â gwasanaethau arbenigol i sicrhau cymorth a chyngor priodol. Maent yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn hysbysu rhieni'n llawn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal. Ceir ethos hapus a chyfeillgar lle mae plant yn teimlo bod croeso iddynt. Caiff pob un o'r plant yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn annog plant i ddangos parch a charedigrwydd at ei gilydd.

Mae ardaloedd dysgu wedi'u dynodi'n glir yn yr ystafell ddosbarth dan do, ac mae offer yn hygyrch i'r plant. Er enghraifft, yn yr ardal creu marciau, mae plant yn rhydd i ddefnyddio ystod eang o offer, fel ysgrifbinnau, pensiliau, sisyrnau, glud a gwahanol fathau o bapur i'w galluogi i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal yn yr awyr agored i ddarparu digonedd o brofiadau dysgu gwerth chweil, fel palu, plannu a golchi ceir.

Mae'r adeilad dan do a'r ardaloedd yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae arddangosfeydd yn cynnwys enghreifftiau diweddar o waith plant a lluniau o blant yn chwarae. Mae'r rhain yn helpu creu amgylchedd deniadol a chroesawgar. Mae ansawdd yr adnoddau helaeth yn dda, ac fe'u defnyddir yn dda i gefnogi gweithgareddau dysgu cynlluniedig. Mae'r ardal awyr agored ger yr ystafell ddosbarth ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad llawn at yr ardal hon yn ystod chwarae rhydd. Mae ymarferwyr yn gwella profiadau plant ymhellach trwy ymweliadau ac ymwelwyr, ble bynnag y bo modd. Er enghraifft, yn sgil ymweliad diweddar â fferm i blant, cafodd y plant nifer o gyfleoedd i ddysgu'n uniongyrchol am yr anifeiliaid yr oeddent wedi bod yn eu hastudio.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ymarferwr arweiniol wedi sefydlu gweledigaeth glir i ddarparu addysg o ansawdd da mewn amgylchedd diogel a meithringar ar gyfer pob un o'r plant. Mae'n rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus â'i thîm ac yn sicrhau bod aelodau staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n gosod safonau uchel iddi hi ei hun ac yn darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer ymarferwyr hefyd. O ganlyniad, maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Maent yn gweithio'n gadarnhaol gyda'i gilydd i sicrhau bod y plant yn gwneud y cynnydd gorau posibl yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae pwyllgor rheoli cryf ac effeithiol yn rhoi lefel dda iawn o gymorth i ymarferwyr. Maent yn dangos llawer o ymrwymiad i'r lleoliad ac yn ymweld yn rheolaidd i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd.

Mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am reoli perfformiad yr holl ymarferwyr. Trwy gyfarfodydd gwerthuso blynyddol, maent yn cynorthwyo ymarferwyr i nodi anghenion hyfforddi personol ac yn cytuno ar dargedau i'w helpu i wella'u harfer. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr i fodloni'r targedau hyn trwy

gydol y flwyddyn ac mae hyn yn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu medrau proffesiynol. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn helpu plant i ddysgu am fyw yn iach trwy ffocws clir ar fwyta'n iach ac ymarfer corff.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwr arweiniol yn cynnal hunanarfarniad blynyddol effeithlon o waith y lleoliad. Fel rhan o'r broses, mae'n rhoi ystyriaeth dda i gyngor gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r lleoliad ac yn ymgynghori â chydweithwyr cyn nodi blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r blaenoriaethau hyn yn deillio'n glir o'r hunanarfarniad, yn nodi staff sy'n gyfrifol am eu goruchwylio ac yn cynnwys graddfeydd amser a chostau clir. Mae'r dull hwn yn arwain at welliannau rheolaidd i'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Er enghraifft, nododd staff fod angen datblygu'r ardal awyr agored ymhellach i roi mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ar draws pob maes dysgu. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno cegin fwd lle mae plant wedi cael hwyl tra'n datblygu eu medrau corfforol, mathemategol a chyfathrebu.

Mae'r lleoliad yn ymgynghori â rhieni bob blwyddyn trwy holiadur. Mae ymarferwyr yn gwneud gwelliannau defnyddiol o ganlyniad, fel gosod bwrdd gwybodaeth yn y cyntedd i rannu gwybodaeth yn fwy pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn ystyried safbwyntiau'r pwyllgor rheoli i helpu nodi ei gryfderau a'i feysydd i'w datblygu yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn ymateb yn gadarnhaol i gymorth a chyngor gan athro cymorth yr awdurdod lleol a'r cynrychiolydd o Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau effeithiol y mae'r plant yn elwa arnynt yn dda. Mae cysylltiadau cadarnhaol â'r ysgol gynradd y mae'r maes chwarae wedi'i leoli ynddi, yn enwedig gyda dosbarth y blynyddoedd cynnar, yn helpu datblygu hyder plant cyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Er enghraifft, mae plant yn y lleoliad yn dod i adnabod plant eraill sydd eisoes yn mynychu'r ysgol trwy'r ddarpariaeth gofal cofleidiol yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn elwa ar gysylltiadau effeithiol ag asiantaethau eraill sy'n cynnig cymorth ac arweiniad am anghenion dysgu ychwanegol plant ac yn rhoi awgrymiadau ar waith yn llwyddiannus.

Ceir cysylltiadau da â rhieni. Mae cylchlythyrau rheolaidd a chyfryngau cymdeithasol yn darparu gwybodaeth am weithgareddau a dyddiadau arbennig, a rhoddir cyfleoedd effeithiol i rieni gael gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plentyn. Ceir trefniadau sefydledig ar gyfer cyfnod ymsefydlu plant yn y lleoliad gydag ymweliadau hyblyg ac anffurfiol, sy'n eu galluogi i ymgynefino'n gyflym.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi dechrau trefnu ymweliadau addas gan y gymuned leol i gefnogi dysgu plant, er enghraifft ymweliadau gan y gwasanaethau tân a heddlu lleol. Mae ymweliad â fferm leol i blant a thaith i'r pantomeim adeg Nadolig hefyd yn rhoi cyfleoedd da i blant ymestyn eu profiadau o'r byd o'u cwmpas.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad addas ar gyfer nifer y plant. Defnyddir staff yn effeithiol, ac mae'r lleoliad yn defnyddio eu medrau a'u profiad yn briodol. Mae pob un o'r ymarferwyr yn elwa ar ystod o hyfforddiant buddiol yn rheolaidd i wella eu gwybodaeth a dysgu'r plant. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar am ddefnyddio'r awyr agored yn effeithiol, mae'r lleoliad wedi darparu ardal balu y mae plant yn mwynhau ei defnyddio tra'n datblygu amrywiaeth o fedrau.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth dda o gyllideb y lleoliad, ac mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â thargedau yn y cynllun gwella. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigonedd o adnoddau o ansawdd da i'r plant eu defnyddio, fel byrddau a chadeiriau ac offer awyr agored newydd.

Yng ngoleuni'r deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |